# Hysbysiad Preifatrwydd NESO ar gyfer Ceisiadau ar gyfer Gweithgorau a Byrddau Strategol RESP

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r **Gweithredwr System Ynni Genedlaethol ("NESO" "Ni")** wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a'i phrosesu mewn ffordd deg a thryloyw. Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut rydym yn trin eich data personol.

### Pwy Ydym Ni

NESO yw'r gweithredwr a'r cynllunydd systemau annibynnol ar gyfer seilwaith ynni Prydain Fawr. Rydym yn gweithredu fel y **Rheolydd Data** ar gyfer y data personol a gesglir yn ystod y gweithgaredd hwn.

### Pwrpas y Prosesu

Bydd y data personol rydych chi'n ei ddarparu fel rhan o'ch cais, gan gynnwys gwybodaeth sydd mewn ffurflenni cais, CVs, llythyrau eglurhaol, gohebiaeth, datganiadau gwrthdaro rhwng buddiannau, ac unrhyw ddogfennau ategol, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gweinyddu, asesu a rheoli'r broses ddethol ar gyfer cymryd rhan ym Myrddau Strategol a Gweithgorau RESP yn unig.

Bydd NESO yn prosesu eich data personol yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU), Deddf Diogelu Data 2018, a pholisïau diogelu data mewnol NESO.

### Pa wybodaeth rydym ni'n ei chasglu

Efallai y byddwn yn casglu ac yn prosesu:

- Manylion cyswllt (fel eich enw, eich cyfeiriad e-bost a'ch sefydliad);
- Gwybodaeth am eich profiad, eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch arbenigedd proffesiynol;
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â chynrychiolaeth eich rhanddeiliaid, eich sefydliad neu eich sector;
- Gwybodaeth sydd yn eich CV, llythyr eglurhaol, ffurflen gais, neu ddogfennau ategol;

- Gwybodaeth yn ymwneud â gwrthdaro rhwng buddiannau;
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â gofynion hygyrchedd neu addasiadau rhesymol lle cânt eu rhoi'n wirfoddol

**Sut rydym ni'n defnyddio eich gwybodaeth**

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i wneud y canlynol:

- Asesu pa mor addas ydych chi i gymryd rhan yn y Bwrdd Strategol neu'r Gweithgor perthnasol;
- Sicrhau proses ddethol deg, dryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- Cysylltu â chi ynghylch eich cais;
- Cefnogi sefydlu, gweinyddu a gweithredu Byrddau Strategol a Gweithgorau;
- Cadw cofnodion priodol mewn perthynas â'r broses ddethol
- Cadw cofnodion priodol ar gyfer cyfarfodydd y Byrddau Strategol a'r Gweithgorau os cânt eu dewis, ee enwau a chyfeiriadau e-bost.

Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i wneud y canlynol:

- Cyhoeddi enwau aelodau'r Bwrdd Strategol a'r Gweithgorau
- Cyhoeddi allbwn cyfarfodydd ar y wefan.

**Gwybodaeth am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Eich dewis chi yw rhoi unrhyw wybodaeth am amrywiaeth, cydraddoldeb, cynhwysiant a pherthyn (DEIB) i ni. Os byddwch yn dewis peidio â rhoi'r wybodaeth hon, ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar eich cais.

Bydd yr wybodaeth hon yn:

- Cael ei defnyddio at ddibenion monitro ac adrodd;
- Helpu NESO i asesu cynwysoldeb a hygyrchedd ei brosesau ymgysylltu;
- Cael ei hystyried ar wahân i'r broses ddethol, ac ni fydd ar gael i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau dethol;
- Ni fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau dethol.

Pan fydd gwybodaeth am amrywiaeth yn cael ei hadrodd, bydd yn cael ei gwneud yn ddienw ac yn cael ei chyfuno fel nad oes modd adnabod unigolion.

## Y Sail Gyfreithiol dros Brosesu

Mae cyfreithiau diogelu data yn mynnu bod gennym sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich data personol. Ein sail gyfreithiol dros brosesu'r data hwn yw er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir er **Budd y Cyhoedd** yn unol â'n rhwymedigaeth trwyddedu Ofgem. Bydd gweinyddu'r broses ymgeisio a dethol hon ar gyfer Byrddau Strategol a Gweithgorau RESP yn helpu NESO i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i gyfrannu at ddatblygu'r RESP.

Pan fyddwch yn rhoi gwybodaeth i ni'n wirfoddol am eich **addasiadau rhesymol neu eich anghenion hygyrchedd**, byddwn yn prosesu'r data personol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o ran cydraddoldeb, iechyd a diogelwch. Pan fydd y data'n cynnwys Data Personol Categori Arbennig, byddwn yn prosesu hyn am resymau sydd o **fudd sylweddol i'r cyhoedd.** Mae hyn er mwyn gallu cael cyfleoedd cyfartal i gael mynediad a galluogi cyfranogiad.

Pan fyddwch yn rhoi gwybodaeth i ni sy'n ymwneud â **chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**, rydym yn prosesu'r rhain i fonitro cydymffurfiad â deddfwriaeth ac adroddiadau cyfle cyfartal. Data Personol Categori Arbennig yw'r wybodaeth hon, a byddwn yn prosesu'r data am resymau sydd o **fudd sylweddol i'r cyhoedd.** Mae hyn hefyd er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys ac yn ystyried anghenion a safbwyntiau pobl o wahanol gefndiroedd ac sydd â gofynion gwahanol yn ein gwaith ymgysylltu a'n gweithgareddau (cyfle cyfartal).

## Rhannu eich gwybodaeth

Dim ond y rheini sy'n ymwneud â gweinyddu a goruchwylio'r broses ddethol, gweithgareddau cydraddoldeb a chynhwysiant neu wneud trefniadau hygyrchedd fydd yn cael gweld eich data personol. Gellir rhannu gwybodaeth yn fewnol o fewn NESO pan fo angen at y dibenion hynny.

Ni fydd NESO yn datgelu eich data personol i drydydd partïon oni bai ei fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu'n angenrheidiol i gyflawni rhwymedigaeth reoleiddio (ee datgelu i reoleiddiwr, corff goruchwylio, neu fel rhan o'n rhwymedigaethau adrodd ar drwyddedau).

### Cadw

Bydd NESO yn cadw gwybodaeth am geisiadau dim ond cyhyd ag y bo angen i weinyddu'r broses ddethol, rheoli cymryd rhan mewn prosesau llywodraethu, cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddiol, ac ymateb i unrhyw ymholiadau neu heriau sy'n ymwneud â'r broses. Bydd gwybodaeth wedyn yn cael ei dileu'n ddiogel neu ei gwneud yn ddienw yn unol â gofynion rheoli cofnodion NESO.

### Eich hawliau

O dan GDPR y DU, mae gennych hawliau mewn perthynas â'ch data personol, gan gynnwys yr hawl i **ofyn am fynediad**, **gwrthwynebu prosesu, gofyn am gywiriadau** neu **ofyn am ddileu**, ar unrhyw adeg. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae NESO yn prosesu eich data personol, eich hawliau, neu sut mae cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd.

### Datganiad

Wrth gyflwyno cais, CV, llythyr eglurhaol neu ddogfennau ategol eraill, rydych yn cadarnhau'r canlynol:

- Mae'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth;
- Rydych chi'n deall sut bydd NESO yn defnyddio eich data personol fel y disgrifir yn yr hysbysiad hwn; ac
- Rydych chi'n deall bod NESO yn prosesu'r data personol rydych chi wedi'i ddarparu at ddibenion proses ymgeisio a dethol Gweithgor RESP.

☐ Rwyf wedi darllen a deall yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn